------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Chwefror 2021

Amser y cyfarfod: 12.45

## 325(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig. Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

### 1 Eitem ar y cyd â Senedd Ieuenctid Cymru

(45 munud)

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

*[Gofyn i'r Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig]*

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i bobl yn dilyn y llifogydd diweddar sydd wedi effeithio cymunedau ar draws Cymru?

## 5 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 6 Dadl: Cynnig Deddfwriaethol gan Aelod - Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

(30 munud)

**NDM7478** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil a fyddai'n gwneud darpariaeth i annog pobl i ddefnyddio iaith arwyddion Prydain (BSL) yng Nghymru, a gwella mynediad at addysg a gwasanaethau drwy gyfrwng BSL.

2. Yn nodi mai diben y Bil fyddai:

a) sicrhau bod gan y gymuned fyddar a phobl sydd wedi colli eu clyw lais yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau;

b) sefydlu grŵp cynghori cenedlaethol BSL i rymuso'r gymuned BSL yng Nghymru;

c) ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyd-gynhyrchu a chyhoeddi cynllun BSL cenedlaethol, a sefydlu nodau strategol i wella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau cymorth a gwella sgiliau BSL ar draws cymdeithas; a

d) ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gyd-gynhyrchu a chyhoeddi eu cynllun BSL eu hunain i ddatblygu ymwybyddiaeth a hyfforddiant BSL, a gwella mynediad at wasanaethau rheng flaen.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Parth perygl nitradau Cymru gyfan

(30 munud)

**NDM7599** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wrthdroi'r penderfyniad i gyflwyno parth perygl nitradau Cymru gyfan.

2. Yn galw ymhellach ar Lywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno cynigion i fynd i'r afael â llygredd yng Nghymru.

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn cefnogi uchelgais ffermio Cymru i fod y mwyaf cyfeillgar yn y byd o ran natur a'r hinsawdd ac ymuno â'r undebau ffermio i gydnabod bod un achos o lygredd amaethyddol yn un achos yn ormod.

Yn cydnabod bod ffermio yng Nghymru yn cynnig llawer o'r atebion pwysicaf i argyfwng yr hinsawdd, a bod llawer o ffermwyr Cymru eisoes wedi sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen i'w harferion ffermio.

Yn derbyn bod rheoli allyriadau amaethyddol yn rhan annatod o'r ymdrech i sicrhau allyriadau sero-net yng Nghymru ac ar draws y DU.

Yn cytuno mai'r cam cyntaf i daclo allyriadau amaethyddol yw cynnal y mesurau rheoli da sydd eisoes yn cael eu cynnal gan y rhan fwyaf o ffermwyr.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Cymhwystra prydau ysgol am ddim

(30 munud)

**NDM7598** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod yr adnodd cyllidol sydd heb ei ddyrannu yng nghyllideb ddrafft 2021-22 yn cael ei ddefnyddio yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2021-22 i ehangu meini prawf cymhwysedd prydau ysgol am ddim i gynnwys pob plentyn mewn teulu sy'n derbyn credyd cynhwysol neu fudd-dal cyfatebol ac unrhyw blentyn mewn teulu nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt.

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn credu ei bod yn annerbyniol mewn cymdeithas fodern bod plant yn dal i fynd heb fwyd ac y byddwn yn parhau i gynyddu ein hymdrechion i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddileu tlodi a newyn.

2. Yn croesawu bod Llywodraeth Cymru:

a) wedi darparu dros £50 miliwn o gyllid ychwanegol i sicrhau bod y ddarpariaeth o brydau ysgol yn parhau yn ystod y pandemig ac mai dyma'r llywodraeth gyntaf yn y DU i wneud darpariaeth o’r fath yn ystod gwyliau'r ysgol;

b) wedi darparu cyllid ychwanegol i sicrhau bod plant sy'n hunanynysu neu'n gwarchod eu hunain yn parhau i dderbyn darpariaeth prydau ysgol am ddim pan nad oes modd iddyn nhw fynd i’r ysgol;

c) yn darparu cyllid o £19.50 yr wythnos i deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef y ddarpariaeth fwyaf hael yn y DU;

d) wedi sicrhau mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU o hyd i gael brecwast am ddim i bawb mewn cynllun i ysgolion cynradd;

e) wedi cael cydnabyddiaeth gan y Sefydliad Polisi Addysg (EPI) am lwyddo i sicrhau bod teuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ystod y pandemig wedi cael mynediad at gymorth priodol ac amserol;

f) wedi ymrwymo i gynnal adolygiad cyflym o'r holl opsiynau sydd ar gael o ran adnoddau a pholisi gan gynnwys y trothwy incwm ar gyfer cael prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

Y Sefydliad Polisi Addysg

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7595** David Melding (Canol De Cymru)

Adolygiad Cumberlege: gwersi ar gyfer cydsyniad ar sail gwybodaeth yn y GIG.

## 11 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7597** Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)

Pa ddyfodol sydd i'r diwydiant pysgota morol?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 2 Mawrth 2021

Eitem 2

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 17/02/2021 i'w hateb ar 24/02/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

1

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

OQ56334

**(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi parafeddygon a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru?

2

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

OQ56300

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth sydd ar gael i bobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain yn ystod y pandemig COVID-19 i osgoi'r perygl o unigrwydd ac unigedd?

3

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ56314

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am amseroedd aros ar gyfer triniaeth orthopedig yng ngogledd Cymru?

4

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

OQ56298

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y rhaglen frechu yn Alun a Glannau Dyfrdwy?

5

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

OQ56331

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio ymwelwyr iechyd yng Nghymru?

6

**Lynne Neagle** *Torfaen*

OQ56326

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno profion asymptomatig yn y gweithle yng Nghymru?

7

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ56306

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gwasanaethau deintyddol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda?

8

**Hefin David** *Caerffili*

OQ56312

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu'r brechlyn COVID-19 i grwpiau blaenoriaeth 6 i 9 yng Nghymru fel y nododd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu?

9

**Alun Davies** *Blaenau Gwent*
OQ56316

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru o ran strategaeth adfer ar gyfer GIG Cymru ar ôl argyfwng y coronafeirws?

10

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*
OQ56321

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella iechyd y cyhoedd yng Nghanol De Cymru?

11

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*
OQ56304

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi pobl sy'n dioddef o COVID hir?

12

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*
OQ56310

**(e)**

A wnaiff Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau a roddwyd i gartrefi gofal i ganiatáu ymweliadau diogel yn ystod pandemig y coronafeirws?

## GWEINIDOG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG

1

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*
OQ56299

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth iechyd meddwl?

2

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ56302

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o ran a fydd modd bodloni’r galw am safleoedd gwersylla a safleoedd carafanau domestig â chyfleusterau sydd wedi’u diogelu rhag COVID yng Nghymru yng ngwanwyn/haf 2021?

3

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

OQ56313

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gynorthwyo iechyd meddwl gweithlu’r GIG a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig?

4

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

OQ56311

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni’r amcanion sydd wedi’u nodi yn Cymraeg 2050?

5

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

OQ56328

**(e)**

Pa waith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol, cynghorau ac elusennau i gefnogi'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau?

6

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ56336

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i geisio atal cynnydd mewn hunanladdiadau o ganlyniad i bandemig COVID-19?

7

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ56327

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl a lles gweithwyr y sector cyhoeddus yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

8

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

OQ56318

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i fusnesau twristiaeth Ynys Mon?

9

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

OQ56322

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth gofal iechyd meddwl yng Nghanol De Cymru?

10

**Leanne Wood** *Rhondda*

OQ56332

**(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yn y Rhondda?

11

**Lynne Neagle** *Torfaen*

OQ56325

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chomisiynydd Plant Cymru ynghylch effaith y cyfyngiadau symud diweddaraf ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru?

12

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

OQ56329

**(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo'r Gymraeg yn Islwyn drwy dechnoleg iaith ar-lein?